**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) (Dirymu) 2023.

**Vaughan Gething AS**
**Gweinidog yr Economi**
**8 Rhagfyr 2023**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwnaed y Gorchymyn hwn o ganlyniad i'r pwyntiau adrodd technegol a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Addasu (SL(6)417).

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Gorchymyn gan ddefnyddio'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru gan adran 29(1) o Ddeddf 2009.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Ar 17 Tachwedd 2023 gwnaeth Gweinidog yr Economi y Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 ("y Gorchymyn Addasu"). Diben y Gorchymyn oedd gwneud newidiadau i *Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru ("y Fanyleb")* i gefnogi nodau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau. Gosodwyd y Gorchymyn yn y Senedd ar 20 Tachwedd 2023.

Mae’r Fanyleb yn pennu’r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009"). Rhaid i bob fframwaith prentisiaeth fodloni'r gofynion a bennir yn y Fanyleb addasedig i fod yn fframwaith Cymreig cydnabyddedig a ddyroddir o dan adran 19(1) o Ddeddf 2009.

Ar ôl derbyn adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad daeth yn amlwg bod diffygion technegol yn y Gorchymyn a fyddai'n ei atal rhag gweithio fel y bwriadwyd. Felly mae angen dirymu'r Gorchymyn Addasu cyn iddo ddod i rym ar 11 Rhagfyr. Yna bydd Gorchymyn newydd yn cael ei lunio i weithredu bwriadau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fanyleb.

Bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n derbyn y Gorchymyn Addasu.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Diben y Gorchymyn yw dirymu Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 yn unig.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad oes unrhyw bolisïau newydd yn cael eu gweithredu.